

RHAN 3

CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU

Cyfeiriadau:

Pennod 3, Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan II: Canllawiau i Gyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen, Gorffennaf 2006

*Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (OS2007 Rhif 399) (Cy.45)
Adran 13, Deddf Llywodraeth Leol 2000*

Mae'r Rhan hon o'r Cyfansoddiad yn nodi: -

- (1) Y swyddogaethau hynny y dywed y gyfraith mai dim ond y Cyngor sy'n gallu eu harfer ("swyddogaethau'r Cyngor").
- (2) Y swyddogaethau y dywed y gyfraith y gellir eu trin mewn ffordd a ddewisir gan y Cyngor ("swyddogaethau dewis lleol").
- (3) Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth Awdurdod yn unig
- (4) Y swyddogaethau y dywed y gyfraith eu bod yn swyddogaethau'r Weithrediaeth ("swyddogaethau Gweithrediaeth").
- (5) Dirprwyaethau swyddogaethau cyffredinol eraill.
- (6) Trefniadau ar y cyd.

1. NAD YDYNT YN GYFRIFOLDEB Y WEITHREDIAETH – SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

Atodlen 1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 - OS2007 Rhif 399

Noder, ar gyfer pob dirprwyaeth a nodir yn y rhan hon, mae'r ddirprwyaeth yn cynnwys y pŵer i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r swyddogaeth ddirprwyedig, gan gynnwys awdurdodi, neu amddiffyn, unrhyw achosion mewn unrhyw lys, tribiwnlys, bwrdd neu banel.

Swyddogaeth* *Nodir manylion pob swyddogaeth yn y Tabl nesaf.	Corff penderfynu	Dirprwyo swyddogaethau
Adran A paragraffau 1 i 42 yn gynhwysol	Pwyllgor Cynllunio (fel y'i nodir yn Erthygl 8)	Fel y'i nodir yn Erthygl 8.
Adran B paragraffau 1 i 5, 12 i 17, 19 i 20, 26 i 30, 32, 35, 35A, 39 i 40	Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol (fel y'i nodir yn Erthygl 8)	Fel y'i nodir yn Erthygl 8.
Adran B paragraffau 6 i 7	Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo (fel y'i nodir yn Erthygl 8)	Fel y'i nodir yn Erthygl 8.
Adran B paragraffau 22, 23, 24, 31, 33, 34, 36, 37, 42, 43	Y Cyngor	Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mewn perthynas â pharagraffau 33 a 34 unrhyw Brif Gyfreithiwr.
Adran C	Y Cyngor	Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol neu unrhyw un o'r canlynol: - *Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestrwyr * Rheolwr Trwyddedu * Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol * Uwch Swyddog Trwyddedu * Swyddog Trwyddedu * Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd *Rheolwr Tîm Safonau Masnach

		<p>*Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd</p> <p>*Swyddog Safonau Masnach</p> <p>*Uwch Swyddog Masnachu Teg</p> <p>*Swyddog Iechyd yr Amgylchedd</p> <p>*Uwch Swyddog Diogelwch Masnachol</p> <p>*Swyddog Diogelwch Masnachol</p> <p>*Swyddog Masnachu Teg Cynorthwydd Technegol (Mae swyddogion a nodir â * wedi'u penodi o dan Adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 neu unrhyw ddiwygiad statudol iddi)</p>
Adrannau D, E, F, G ac H.	Y Cyngor	Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mewn perthynas ag Adran D, y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol.
Adran I paragraffau 1, 2, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 16	Y Cyngor	Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.
Adran I paragraff 17	Y Cyngor	Y Cyngor
Adran I paragraff 6	<p>(a) Mewn perthynas â phenodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, y Cyngor <u>ond nodir</u> y darpariaethau yn I paragraffau 11-13 isod, y mae'n rhaid iddynt gael eu harfer gan y Cyngor.</p> <p>(b) Bydd Pwyllgor o 9 Aelod (y Pwyllgor Penodiadau) yn cyflawni ar ran y Cyngor y gwaith o benodi Prif Swyddog, dirprwy Brif Swyddogion,</p>	<p>(b) Caiff yr holl faterion o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.</p>

	<p>a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd a phenderfynu ar unrhyw fanylion sy'n ymwneud â phenodiadau o'r fath (ac eithrio cydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion, y mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu arni)</p> <p>(c) Mewn perthynas â cheisiadau am ymddeoliad cynnar / diswyddo gwirfoddol, mae pwyllgor ("y Pwyllgor Pensiynau / lawndal") o 7 aelod i benderfynu ar geisiadau o'r fath ac i gymeradwyo rhyddhau buddion pensiwn yn gynnar gan arfer pwerau disgrisiynol y Cyngor o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol</p> <p>(d) Mewn perthynas â'r holl staff eraill y Pennaeth Gwasanaethau Cyflogedig neu ei enwebai.</p>	<p>(c) Caiff yr holl faterion o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.</p> <p>(d) Y Prif Weithredwr ac unrhyw berson a enwebir gan y Prif Weithredwr.</p>
Adran I paragraffau 3 a 4.	Y Pwyllgor Cynllunio fel y'i disgrifir yn Erthygl 8.	Fel y'i nodir yn Erthygl 8.
Adran I paragraff 8	Y Pwyllgor Safonau fel y'i disgrifir yn Erthygl 9.	Fel y'i nodir yn Erthygl 9.
Adran I paragraff 10	Y Pwyllgor Trwyddedu (fel y'i disgrifir yn Erthygl 8)	Fel y'i nodir yn Erthygl 8.
Y swyddogaethau a bennir gan y gyfraith fel rhai sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor gan gynnwys: (a) gosod y Gyllideb; (b) gosod y fframwaith polisi; (c) unrhyw drosglwyddiadau tir ar gyfer tai.	Y Cyngor (gan gael argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth)	Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

<p>Nid yw swyddogaethau -</p> <p>(a) gosod unrhyw amod, terfyn neu gyfyngiad arall ar gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad a ganiateir—</p> <p>(i) wrth arfer swyddogaeth a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1; neu</p> <p>(ii) heblaw am weithrediaeth i'r awdurdod, wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf leol; a</p> <p>(b) penderfynu ar unrhyw delerau eraill y mae unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad o'r fath, yn ddarostyngedig iddynt, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod.</p>	<p>Y Cyngor (gan gael argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth)</p>	<p>Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.</p>
<p>Nid yw swyddogaeth penderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi, ac ym mha fodd y dylid eu gorfodi —</p> <p>(a) yn erbyn unrhyw fethiant i gydymffurfio â chymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad a ganiateir wrth arfer swyddogaeth a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1.</p> <p>(b) yn erbyn unrhyw fethiant i gydymffurfio ag amod, cyfyngiad</p>	<p>Y Cyngor (gan gael argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth)</p>	<p>Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.</p>

<p>neu deler y mae unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad o'r fath yn ddarostyngedig iddynt, neu</p> <p>(c) yn erbyn unrhyw doriad arall mewn perthynas â mater na fyddai'r swyddogaeth o benderfynu ar gais am gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod mewn perthynas ag ef, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod.</p>		
<p>Nid yw swyddogaeth -</p> <p>(a) diwygio, addasu neu amrywio unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad o'r fath a grybwyllir ym mharagraff (2), nac unrhyw amod, terfyn, cyfyngiad neu deler y mae'n ddarostyngedig iddynt; neu</p> <p>(b) diddymu unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad o'r fath, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod.</p>	<p>Y Cyngor (gan gael argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth)</p>	<p>Y Cyngor, neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.</p>
<p>Nid yw swyddogaeth gwneud unrhyw gynllun a awdurdodir neu a fynnir</p>	<p>Y Cyngor (gan gael argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth)</p>	

<p>gan reoliadau o dan adran 18 (cynlluniau ar gyfer lwfansau sylfaenol, lwfansau presenoldeb a lwfansau cyfrifoldeb arbennig i aelodau awdurdodau lleol) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (1), neu swyddogaeth diwygio, diddymu neu ddisodli unrhyw gynllun o'r fath, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Pwerau i Ddirprwyo Swyddogaethau) yn gymwys mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon. 		
<p>Nid yw swyddogaethau penderfynu</p> <p>(a) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy—</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) o dan is-adran (5) o adran 22 (treuliau cadeirydd) o Ddeddf 1972; (ii) o dan is-adran (4) o adran 24 (treuliau is-gadeirydd) o'r Ddeddf honno; (iii) o dan is-adran (4) o adran 173 (lwfans colled ariannol) o'r Ddeddf honno(1); (iv) o dan adran 175 (lwfansau ar gyfer mynychu cynadleddau a chyfarfodydd) o'r Ddeddf honno; <p>(b) yn ôl y cyfraddau y mae taliadau i gael eu gwneud o dan adran 174 (lwfansau</p>	<p>Y Cyngor (gan gael argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth)</p>	

<p>teithio a chynhaliaeth) o'r Ddeddf honno;</p> <p>(c) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy yn unol â chynllun o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu reoliadau a wnaed o dan adran 100 o Ddeddf 2000, neu yn ôl y cyfraddau y mae taliadau ar gyfer unrhyw lwfans o'r fath i gael eu gwneud;</p> <p>(d) a ddylid codi tâl am unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad nad yw eu rhoi yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod; a</p> <p>(e) pan gaiff tâl ei godi am unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad o'r fath, swm y tâl; i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod.</p> <p>* Nid yw Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Pwerau i Ddirprwyo Swyddogaethau) yn gymwys mewn perthynas ag (a) i (c) uchod.</p>		
<p>Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau o dan adran 20 (arfer swyddogaethau ar y cyd) o Ddeddf 2000, nid yw swyddogaeth gwneud</p>	<p>Y Cyngor</p>	<p>Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.</p>

trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan bwyllgor neu swyddog o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod.		
Nid yw swyddogaeth gwneud penodiadau o dan adran 102 (penodi pwyllgorau) o Ddeddf 1972 i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r awdurdod.	Y Cyngor	Y Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Mae manylion y swyddogaethau a nodir uchod fel a ganlyn:-

(1)	(2)
Y Swyddogaeth	Y Ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol
A. Swyddogaethau'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu	
1. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.	Adrannau 70(1)(a) a (b) a 72 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8)
2. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd o'r blaen.	Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
3. Y pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni.	Adran 73A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
4. Y pŵer i wrthod penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio a cheisiadau sy'n gorgyffwrdd.	Adrannau 70A a 70B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
5. Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.	Adrannau 69, 74, 76, 91 a 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r rheoliadau ategol.
6. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir gan awdurdod lleol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â pherson arall.	Adran 316 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (O.S. 1992/1492).
7. Y pŵer i wneud penderfyniadau, i roi cymeradwyaethau ac i gytuno ar faterion penodol eraill sy'n ymwneud ag arfer hawliau datblygu a ganiateir.	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/148) (fel y'i diwygiwyd).

8. Y pŵer i wneud cytundeb sy'n rheoleiddio datblygu tir neu ddefnyddio tir.	Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
9. Y pŵer i roi tystysgrif o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon presennol neu arfaethedig	Adrannau 191(4) a 192(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
10. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad cwblhau.	Adran 94(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
11. Y pŵer i reoli arddangos hysbysebion.	Adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992.
12. Y pŵer i awdurdodi mynd ar dir.	Adran 196A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
13. Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol rhoi'r gorau i ddefnyddio tir neu newid neu adnewyddu adeiladau neu waith.	Adran 102 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
14. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio, hysbysiad torri amod neu hysbysiad stop.	Adrannau 171C, 187A a 183(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
15. Y pŵer i roi hysbysiad gorfodi.	Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
16. Y pŵer i wneud cais am waharddeb i atal torri rheoli cynllunio.	Adran 187B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
17. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad sylweddau peryglus, a phwerau cysylltiedig.	Adrannau 9(1) a 10 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (p.10).
18. Y ddyletswydd i benderfynu ar amodau y mae hen ganiatadau mwyngloddio, caniatadau cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â safleoedd cwsg neu safleoedd gweithredol Rhan I neu II, neu ganiatadau mwynol sy'n ymwneud â safleoedd mwyngloddio, yn ôl fel y digwydd, i fod yn ddarostyngedig iddynt.	Paragraff 2(6)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio ac lawndal 1991, paragraff 9(6) o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 6(5) o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno.
19. Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod tir yn cael ei gynnal yn iawn.	Adran 215(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
20. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, a phwerau cysylltiedig.	Adrannau 16(1) a (2), 17, 19 a 33(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9).
21. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad ardal gadwraeth.	Adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno).
22. Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth.	Adran 13(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a rheoliadau 3 i 13 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau

	Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a pharagraff 127 o Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.
23. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad, a phwerau cysylltiedig.	Adrannau 3(1) a 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
24. Y pŵer i roi hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig.	Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
25. Pwerau i gaffael adeilad rhestredig y mae angen ei drwsio a chyflwyno hysbysiad trwsio.	Adrannau 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
26. Y pŵer i wneud cais am waharddeb mewn perthynas ag adeilad rhestredig.	Adran 44A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
27. Y pŵer i wneud gwaith brys ac adennill costau.	Adrannau 54 a 55 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
28. Pŵer yn gysylltiedig â rhoi'r gorau i weithiau mwynau.	Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
29. Pŵer yn gysylltiedig â llwybrau troed a llwybrau ceffylau.	Adrannau 257 a 258 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
30. Pŵer ynghylch tystysgrifo datblygiadau amgen priodol.	Adran 17 o Ddeddf lawndal Tir 1961 (p.33).
31. Dyletswyddau mewn perthynas â hysbysiadau prynu.	Adrannau 137-144 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
32. Pwerau yn gysylltiedig â gorchmynion malltod.	Adrannau 149-171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
33. Gorchmynion datblygu lleol	Adrannau 61A i D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd
34. Parthau cynllunio syml	Adrannau 82 i 87 ac Atodlen 7 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd
35. Pwerau i ddirymu neu addasu caniatâd cynllunio	Adrannau 97 i 99 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd
36. Dyletswydd awdurdod cynllunio mwynau i adolygu gweithiau mwynau	Adran 105 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd
37. Sgrinio a chwmpasu ceisiadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol a dyletswyddau eraill mewn perthynas ag Asesu Effeithiau Amgylcheddol	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 fel y'u diwygiwyd
38. Penderfynu ar geisiadau a gyflwynir o dan y Rheoliadau Adeiladu	Deddf Adeiladu 1984 fel y'i diwygiwyd a Rheoliadau Adeiladu cysylltiedig
39. Dyletswyddau fel y'u pennir o dan Ddeddf Adeiladu 1984 gan gynnwys	Deddf Adeiladu 1984 fel y'i diwygiwyd a Rheoliadau Adeiladu cysylltiedig

cyflwyno hysbysiad ar strwythurau peryglus	
40. Y pŵer i ymdrin â diwygiadau ansylweddol	Adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
41. Y pŵer i ddatgan cais yn annilys	Adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
42. Y pŵer i ymdrin ag ymholiadau cyn-ymgeisio statudol	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gwasanaethau Cyn-ymgeisio) (Cymru) 2016
B. Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon yn ymdrin â hwy)	
1. Y pŵer i roi trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio tir yn safle carafanau neu'n safle cartrefi symudol ("trwyddedau safle").	Adran 3(3) o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 (p. 62). Ac Adran 7(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
2. Y pŵer i drwyddedu defnyddio anheddau symudadwy a safleoedd gwersylla.	Adran 269(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p.49).
3. Y pŵer i drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	(a) o ran cerbydau hacni, Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 (10 ac 11 Vict. p.89), fel y'i hestynnwyd gan adran 171 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 (38 a 39 Vict. p.55), ac adran 15 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p.67); ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p.57); (b) o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48, 57, 68, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
4. Y pŵer i drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	Adrannau 51, 53, 54, 59, 61 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
5. Y pŵer i drwyddedu gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	Adrannau 55 i 58, 62 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
6. Y pŵer i roi trwyddedau, tystysgrifau a chaniatadau yn unol â Deddf Trwyddedu 2003	Deddf Trwyddedu 2003
7. Y pŵer i roi trwyddedau a chaniatadau yn unol â Deddf Gamblo 2005	Deddf Gamblo 2005

Nid oes paragraff 8 mae'r dyletswyddau wedi'u hymgorffori i Ddeddf Gamblo 2005	
Nid oes paragraff 9 mae'r dyletswyddau wedi'u hymgorffori i Ddeddf Gamblo 2005	
Nid oes paragraff 10 mae'r dyletswyddau wedi'u hymgorffori i Ddeddf Gamblo 2005	
Nid oes paragraff 11 mae'r dyletswyddau wedi'u hymgorffori i Ddeddf Gamblo 2005	
12. Y pŵer i roi trwyddedau adloniant. 13. Y pŵer i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw a lleoliadau adloniant rhywiol.	Adran 12 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1933 (p.12) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, adran 2 ac Atodlen 3 ac Adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009.
14. Y pŵer i drwyddedu perfformiadau hypnotiaeth.	Deddf Hypnotiaeth 1952 (p. 46).
15. Y pŵer i drwyddedu safleoedd ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis.	Adrannau 13 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.
16. Y pŵer i drwyddedu cychod pleser a llongau pleser.	Adran 94 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 (p. 53).
17. Y pŵer i drwyddedu masnachu mewn marchnadoedd ac ar y stryd.	Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac Atodlen 4 iddi.
18. Gwag	
19. Y pŵer i roi cofrestriadau neu drwyddedau ar gyfer gweithgynhyrchu a storio ffrwydron.	Rheoliadau Ffrwydron 2014
19A. Y pŵer i roi trwyddedau ar gyfer cyflenwi tân gwyllt.	Rheoliadau Tân Gwyllt 2004
19B. Y pŵer i roi trwyddedau ar gyfer cadw gwirod petrolewm.	Rheoliadau Petrolewm (Cydgrynhoi) 2014 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974
20. Y pŵer i gofrestru a thrwyddedu safleoedd ar gyfer paratoi bwyd.	Adran 19 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16).
21. GWAG	
22. Y pŵer i roi, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch (cyffredinol neu arbennig) ar gyfer meysydd chwaraeon.	Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 (p. 52).
23. Y pŵer i roi, dileu, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch ar gyfer eisteddleoedd rheoledig mewn meysydd chwaraeon.	Rhan III o Ddeddf Diogelwch Rhag Tân a Diogelwch Lleoedd Chwaraeon 1987 (p.27).

24. Dyletswydd i hyrwyddo diogelwch rhag tân.	Adran 6 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21)
25. GWAG	
26. Y pŵer i drwyddedu sefydliadau lletya cŵn a gweithgareddau eraill i anifeiliaid.	Adran 1 o Ddeddf Sefydliadau Byrddio Anifeiliaid 1963 (p. 43); Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970 (1964 p. 70 a 1970 p. 70).
27. Y pŵer i gofrestru hyfforddwyr ac arddangoswyr anifeiliaid.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 (p. 38).
28. Y pŵer i drwyddedu sŵau.	Adran 1 o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 (p. 37).
29. Y pŵer i drwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (p. 38).
29A. Y pŵer i drwyddedu sefydliadau marchogaeth.	Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970
30. Y pŵer i orfodi rheoliadau mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid.	Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014
31. Y pŵer i drwyddedu cyflogi plant.	Rhan II o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1933 (p.12), is-ddeddfau a wneir o dan y Rhan honno, a Rhan II o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1963 (p.37).
32. Y pŵer i gymeradwyo mangreoedd ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.	Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd a Gymeradwywyd) 2005 a 2011
33. Y pŵer i gofrestru tir comin neu lawntiau trefi neu bentrefi, ac eithrio os yw'r pŵer yn arferadwy ar gyfer rhoi effaith i'r canlynol yn unig— (a) cyfnewid tiroedd y mae gorchymyn o dan adran 19(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p.67) neu baragraff 6(4) o Atodlen 3 iddi yn rhoi effaith iddo; neu (b) gorchymyn o dan adran 147 o Ddeddf Amgáu Tiroedd 1845 (p. 8 a 9 Vict. p. 118).	Rheoliad 6 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Tir Newydd) 1969 (O.S. 1969/1843).
34. Y pŵer i gofrestru amrywiadau ar hawliau comin.	Rheoliad 29 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471).
35. Y pŵer i ddyroddi trwydded i gasglu arian ar y stryd.	Deddf Heddlu, Ffatrioedd etc. (Darpariaethau Amrywiol) 1916
35A. Y pŵer i ddyroddi trwydded i gasglu arian o dŷ i dŷ.	Adran 2 o Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947

36. Y pŵer i roi cydsyniad ar gyfer gweithredu uchelseinydd.	Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (p. 40).
37. Y pŵer i roi trwydded ar gyfer gweithfeydd stryd.	Adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991 (p. 22).
38. GWAG	
39. Y pŵer i orfodi rheoliadau mewn perthynas â symud moch.	Adran 25 Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011.
40. Y pŵer i roi trwydded i symud gwartheg o farchnad.	Atodlen 1 Paragraff 3(3) o Reoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007.
41 GWAG	
42. Y ddyletswydd i orfodi a gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 852/2004 a 853/2004 mewn perthynas â gweithredwyr busnesau bwyd fel y'u pennir ymhellach yn rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006.	Rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006.
43. Swyddogaethau mewn perthynas â sefydlu Pwyllgor Trwyddedu.	Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17).
C. Swyddogaethau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith	
Swyddogaethau o dan unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" o fewn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni mewn ffordd wahanol i'w cyflawni yn rhinwedd swyddogaeth yr awdurdod fel cyflogwr.	Rhan I o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 (p. 37).
D. Swyddogaethau'n ymwneud ag etholiadau	
1. Y ddyletswydd i benodi swyddog cofrestru etholiadol.	Adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2).
2. Y pŵer i ddyrannu swyddogion mewn perthynas ag angenrheidiâu'r swyddog cofrestru.	Adran 52(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
3. Y pŵer i ddileu cynghorau cymuned.	Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994).
4. Y pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer grwpio cymunedau.	Adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994).
5. Y pŵer i wneud gorchmynion i ddileu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned oddi wrth grwpiau.	Adran 29A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994).

6. Y ddyletswydd i benodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.	Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
7. Y ddyletswydd i roi cymorth yn etholiadau'r Senedd Ewropeaidd.	Adrannau 6(7) ac (8) o Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002.
8. Y ddyletswydd i rannu'r etholaeth yn rhanbarthau pleidleisio.	Adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
9. Y pŵer i rannu adrannau etholiadol yn rhanbarthau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.	Adran 31 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
10. Pwerau mewn perthynas â chynnal etholiadau.	Adran 39(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
11. Y pŵer i dalu treuliau a dynnir yn briodol gan swyddogion cofrestru etholiadol.	Adran 54 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
12. Y pŵer i lenwi lleoedd gwag os na cheir digon o enwebiadau.	Adran 21 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.
13. Y ddyletswydd i ddatgan bod yna le gwag mewn swydd mewn rhai achosion.	Adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
14. Y ddyletswydd i roi hysbysiad cyhoeddus o le gwag achlysurol.	Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
15. Y pŵer i wneud penodiadau dros dro i gynghorau cymuned.	Adran 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
16. Y pŵer i benderfynu ffioedd ac amodau ar gyfer rhoi copïau o ddogfennau etholiadol neu ddarnau allan ohonynt.	Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986 (O.S. 1986/2214) a Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (O.S. 1986/2215).
17. Y pŵer i gyflwyno cynigion i Weinidogion Cymru ar gyfer gorchymyn o dan adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.	Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2).
18. Swyddogaethau etholiadol amrywiol o dan Ran II, O.S. 2003/284.	Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003, O.S. (2003/284).
19. Y ddyletswydd i ddyrannu swyddogion i gynorthwyo yn etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu	Adran 54(4) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
E. Swyddogaethau'n ymwneud ag enw a statws ardaloedd ac unigolion	
1. Y pŵer i newid enw sir, neu enw bwrdeistref sirol.	Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
2. Y pŵer i newid enw cymuned.	Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

3. Y pŵer i roi teitl henadur mygedol neu i dderbyn rhywun yn rhyddfrefniwr mygedol.	Adran 249 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
4. Y pŵer i ddeisebu o blaid siarter i roi statws bwrdeistref sirol.	Adran 245A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
F. Y pŵer i wneud, diwygio, dirymu neu ail-ddeddfu is-ddeddfau	Unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys Deddf leol), pryd bynnag y cafodd ei phasio, ac Adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 300).
G. Y pŵer i hybu neu i wrthwynebu Mesurau lleol neu bersonol.	Adran 239 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
H. Swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau ac ati	
1. Swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, etc.	Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dâl 1972 (p. 11)
2. Swyddogaethau'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd.	Rheoliadau o dan adran 18 (3A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).
3. Swyddogaethau o dan gynlluniau pensiwn sy'n bodoli eisoes o ran personau sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdodau tân ac achub yn unol ag adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.	Adrannau 34 a 36 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
I. Swyddogaethau amrywiol	
1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl y digwydd).	Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.
2. Swyddogaethau'n ymwneud â physgodfeydd môr.	Adrannau 1, 2, 10 a 19 o Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 (p. 38).
3. Pwerau'n ymwneud â chadw coed.	Adrannau 197 i 214D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (O.S. 1999/1892).
4.. Pwerau'n ymwneud â diogelu gwrychoedd (perthi) pwysig.	Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi) 1997 (O.S. 1997/1160).
5. Y pŵer i wneud rheolau sefydlog.	Adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a pharagraff 42 o Atodlen 12 iddi.
6. Penodi a diswyddo staff.	Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
7. Y pŵer i wneud rheolau sefydlog ynghylch contractau.	Adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. Y pŵer i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.	Adran 19 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10).
9. Y pŵer i wneud gorchymyn yn nodi lle fel lle cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol.	Adran 13(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16).
10.	
11. Y pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi "priod swyddogion").	Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.42).
12. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ac i ddarparu staff, etc.	Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).
13(a) Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro, ac i ddarparu staff, etc.	Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
13(b) Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ac i ddarparu staff etc.	Adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
14. Y ddyletswydd i ddyfarnu ar derfyn benthyca fforddiadwy.	Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.22).
15. Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau.	Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.
16. Y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol.	Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.11).
17. Pennu lefel y gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w thalu i Brif Swyddog, ac unrhyw newid i'r lefel honno.	Rheoliad 7 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan reoliadau diwygio 2014.

Mae'r Cyfansoddiad yn sefydlu'r Pwyllgorau canlynol i gyflawni rhai o swyddogaethau'r Cyngor. Nodir eu Cylchoedd Gorchwyl a'u pwerau dirprwyedig yn fanwl yn y rhannau o'r Cyfansoddiad hwn fel a ganlyn:

Pwyllgor	Yn y Cyfansoddiad hwn yn:
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Erthygl 8
Pwyllgor Cynllunio	Erthygl 8
Pwyllgor Cabinet Hawliau Tramwy	Rhan 3 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau Gweithrediaeth
Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo	Erthygl 8 a Rhan 3 Tabl 1
Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol	Erthygl 8 a Rhan 3 Tabl 1
Pwyllgor Safonau	Erthygl 9
Pwyllgor Penodiadau	Rhan 3 Tabl 1
Panel Apeliadau	Rhan 3 Tabl 2
Pwyllgor Pensiynau/lawndal	Rhan 3 Tabl 1
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	Erthygl 8

Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu	Rheolau Gweithdrefnau Cyflogi Swyddogion Rhan 4
-------------------------------	--

PWERAU DIRPRWYEDIG ERAILL

Pŵer	Dirprwyo
1. Y pŵer i bennu meini prawf a fydd yn sail ar gyfer mesur a chymhwyso'r cymwyseddau ar gyfer awdurdodiad i ganiatáu aelodau unigol o'r staff, ac i ddyroddi ac ardystio awdurdodiadau i swyddogion.	Y Cyfarwyddwr neu unrhyw Bennaeth Gwasanaeth yn y Gyfadrhan honno mewn perthynas ag unrhyw staff yn y Gyfadrhan honno.
2. Pob swyddogaeth arall gan gynnwys gweithredu brys os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor.	Y Cyngor neu'r Prif Weithredwr neu unrhyw Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Mae'r swyddogaethau statudol y cyfeirir atynt yn y tabl uchod fel a ganlyn:-

Deddf Asiantaethau Llety 1953
 Deddfau Cynnyrch Amaethyddol (Graddio a Marcio) 1928, 1931
 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968
 Deddfau Amaethyddiaeth 1967 - 1970
 Deddf Sefydliadau Byrddio Anifeiliaid 1963
 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
 Deddf Lles Anifeiliaid 2006
 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
 Deddf Adeiladu 1984
 Deddf Canser 1939
 Deddf Safleoedd Carafanau 1968
 Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960
 Deddfau Elusennau 1992 a 2006
 Deddf Plant a Theuluoedd 2014
 Deddf Plant a Phersonau Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991
 Deddfau Plant a Phersonau Ifanc 1933 - 1963
 Deddfau Plant 1989 – 2004
 Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000
 Deddfau Aer Glân 1956 - 1993
 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
 Deddf Newid Hinsawdd 2005
 Deddfau Cofrestru Tir Comin 1965/2006
 Deddfau Cwmnïau 1985 a 2006
 Deddfau Credyd Defnyddwyr 1974 a 2006
 Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987
 Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015
 Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014
 Deddfau Rheoli Llygredd 1974 – 1989

Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
Deddfau Cyfiawnder Troseddol 1982, 1988, 1991
Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976
Deddfwriaeth Diogelu Data
Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996
Deddf Addysg 1996
Deddf Addysg 1997
Deddfau Addysg 2002 a 2005
Deddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 (Dyfarniad Disgresiynol)
Deddf Diwygio Addysg 1988
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Deddf Trydan yn y Gweithle 1989
Deddf Ynni 1976
Deddf Ynni 2011
Deddf Arbed Ynni 1981
Deddf Menter 2002
Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cymru) 2016
Deddf Asiantau Eiddo 1979
Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
Deddf Ffatrioedd 1961
Deddf Cemegion Ffermydd a Gerddi 1967
Deddf Rhagofalon Tân 1971
Deddf Diogelwch Rhag Tân a Diogelwch Lleoedd Chwaraeon 1987
Deddf Tân Gwyllt 2003
Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985
Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
Deddf Bwyd 1984
* Deddf Diogelwch Bwyd 1990
Deddf Dynwared a Ffugio 1981
Deddf Twyll 2006
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Deddf Gamblo 2005
Deddf Dilysnodi 1973
Deddf Sylweddau Peryglus 1990
Deddf Iechyd 2006
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974
Deddf Priffyrdd 1980
Deddf Diogelwch yn y Cartref 1961
Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939
Deddf Tai 1985
Deddf Tai 1996
Deddf Tai 2004
Deddf Tai (Cymru) 2014
Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996

Deddf Hypnotiaeth 1952
Deddf Broceriaid Yswiriant (Cofrestru) 1977
Deddf Cwmnïau Yswiriant 1982
Deddf Sylweddau Meddwol (Cyflenwi) 1985
Deddf Draenio Tir 1991
Deddf Cyfraith Eiddo 1925
Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) 2022
Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
Deddf Trwyddedu 2003
Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012
Deddfau Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 1982
Deddfau Llywodraeth Leol 1972 – 2003
Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988
Deddf Meddyginiaethau 1968
Deddf Meddygaeth a Dyfeisiau Meddygol 2021
Deddf Mwynfeydd a Chwareli (Tomenni) 1969
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
Deddf Sŵn Beiciau Modur 1987
Deddf Loteriâu Cenedlaethol etc. 1993
Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006
Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991
Deddf Sŵn 1996
Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993
Deddf Arfau Ymosodol 2019
Deddf Swyddfeydd, Siopau a Mangreoedd Rheilffyrdd 1963
Deddf Symbol Olympaidd etc. (Diogelu) 1995
Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925
Deddf Cynllunio 2008
Deddf Cynllunio a Digolledu 1991
Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999
Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000
Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949
Deddf Enillion Troseddau 2002
Deddfau Prisiau 1974 a 1975
Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Niwsans Mynych) 1969
Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1936 i 1961
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018
Deddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978
Deddf Gwasanaeth Cofrestru 1953
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Deddf Cronfeydd Dŵr 1975
 Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 i 1970
 Deddf Traffig Ffyrdd (Cerbydau Tramor) 1972
 Deddfau Traffig Ffyrdd 1974 - 1988
 Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975
 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013
 Deddf Wisgi'r Alban 1988
 Deddf Lladd Dofednod 1967
 Deddf Lladd-dai 1974
 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
 Deddf Cyfreithwyr 1974
 Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001
 Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010
 Deddf Masnachu ar y Sul 1994
 Deddf Tatŵio Pobl Ifanc o Dan Oed 1969
 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998
 Deddf Telathrebu 1984
 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
 Deddfau Dwyn 1968 a 1978
 Deddf Cyfrannau Cyfnodol 1992
 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
 Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002
 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
 Deddf Nodau Masnach 1994
 Deddfau Ymholiadau Masnachu (Personau Anabl) 1958 a 1972
 Deddf Disgrifiadu Masnach 1968
 Deddf Rheoli Traffig 2004
 Deddfau Trafnidiaeth 1985, 2000 a 2006
 Deddfau Nwyddau a Gwasanaethau Digymell 1971 a 1975
 Deddf Cerbydau (Troseddau) 2001
 Deddfau Recordiadau Fideo – 1984 a 2010
 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
 Deddf Dŵr 1989
 Deddf Pwysau a Mesurau 1985
 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
 Deddf Trwyddedu Sŵau 1981

* Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) sy'n deddfu mewn rheoliadau y darpariaethau o dan reoliadau'r Ddeddf Diogelwch Bwyd a Deddf y Cymunedau Ewropeaidd'.

**2. SWYDDOGAETHAU A ALL FOD YN GYFRIFOLDEB I WEITHREDIAETH
 AWDURDOD (OND NAD OES ANGEN IDDYNT FOD FELLY) -
 "SWYDDOGAETHAU DEWIS LLEOL"**

Swyddogaeth	Corff penderfynu	Aelodaeth	Dirprwyo Swyddogaethau
-------------	------------------	-----------	------------------------

<p>1. Unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf leol heblaw swyddogaeth a bennir neu y cyfeirir ati yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) .</p>	<p>Y Weithrediaeth</p>	<p>Y Weithrediaeth fel y'i diffinnir yn Erthygl 7 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad hwn.</p>	<p>(a) Y Cabinet (b) Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet priodol.</p>
<p>2. Dyfarnu ar apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan yr awdurdod neu ar ei ran.</p>	<p>(a) Y Cyngor mewn perthynas â materion apeliadau disgyblu pwyllgor a ddynodir "y Panel Apeliadau" mai ei gylch gorchwyl yw gwrando a dyfarnu ar apeliadau o benderfyniadau sy'n gysylltiedig â diswyddo swyddog; (b) Mewn perthynas ag apeliadau neu geisiadau eraill sydd i gael eu hystyried gan y Cyngor mewn modd lled-farnwrol, y Pwyllgor Trwyddedu fel y disgrifir yn Erthygl 8;</p>	<p>(a) 3 aelod (b) 15 aelod</p>	<p>(a) Yr holl faterion sydd o fewn Cylch Gorchwyl y Panel Apeliadau. (b) Yr holl faterion sydd o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor</p>
<p>3. Swyddogaethau mewn perthynas â diwygio penderfyniadau a</p>	<p>Y Weithrediaeth</p>	<p>Y Weithrediaeth fel y'i diffinnir yn Erthygl 7 o Ran 2</p>	<p>(a) Y Cabinet (b) Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu'r</p>

wnaed mewn cysylltiad â hawliadau am fudd-dal tai neu fudd-dal y dreth gyngor ac ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau o'r fath o dan Adran 68 o Ddeddf Cynnal Plant, Pensiynau a Nawdd Cymdeithasol 2000 ac Atodlen 7 iddi.		o'r Cyfansoddiad hwn.	Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet priodol.
4. Gwneud trefniadau mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn gwahardd disgyblion o ysgolion a gynhelir o dan Adran 52 o Ddeddf Addysg 2002.	Y Weithrediaeth	Y Weithrediaeth fel y'i diffinnir yn Erthygl 7 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad hwn.	(a) Y Cabinet (b) Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet priodol.
5. Gwneud trefniadau yn unol ag Adran 94(1), (1A) a (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (apeliadau derbyn) ac Atodlen 24 iddi.	Y Weithrediaeth	Y Weithrediaeth fel y'i diffinnir yn Erthygl 7 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad hwn.	(a) Y Cabinet (b) Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet priodol.
